**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 13 RHAGFYR 2023 YN NHŶ HASTINGS A THRWY MS TEAMS**

**Yn bresennol:** Mrs Bev Smith (Cadeirydd) trwy Teams; Mrs Dianne Bevan; Mr Frank Cuthbert; Mr Michael Imperato; Ms Ginger Wiegand.

**Swyddogion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC) a oedd yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Huw Blacker (Rheolwr Arolygon); Mr Christian Lovatt (Swyddog Cymorth Tîm).

**Ymddiheuriadau:** Roger Ashton-Winter (Uwch Reolwr Prosiect)

**Amser Dechrau: 10:36**
**Amser Gorffen: 13:11**

**1. Datganiadau Buddiannau**

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau Buddiannau.

**2. Gwybodaeth gan y Cadeirydd**

2.1. **Gwahoddodd** y Cadeirydd y Comisiynwyr a'r Prif Weithredwr i roi diweddariad ar y cyfarfod rhyng-Gomisiwn a gynhaliwyd yng Nghaeredin.

2.2. **Rhoddodd** y Cadeirydd **wybod** i'r Comisiwn y gofynnwyd iddi gadeirio digwyddiad ar gyfer y Gweinidog Rebecca Evans ar 31 Ionawr 2024 ac y bydd y Dirprwy Gadeirydd yn cadeirio cyfarfod y Comisiwn ym mis Ionawr.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2023**

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2023 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd yn amodol ar fân ddiwygiadau.

**4. Materion yn Codi**

**4.1.** **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a rhoddwyd diweddariad ar gynnydd y materion canlynol:

**4.2.** **(Mater 1)** Ni chafodd y Comisiwn unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth rhwng 18 Hydref 2023 a 6 Rhagfyr 2023.

4.3. **(Mater 2) Nodwyd** bod y Comisiwn yn cynnal Arolygon Cymunedol ar hyn o bryd ar gyfer Bro Morgannwg, Caerffili, Ceredigion, Abertawe, a Sir Benfro. Mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys mewn eitem agenda ar wahân.

4.4. **(Mater 3) Nodwyd** bod PBU wedi cynnal ymarfer graddio ar gydnabyddiaeth ariannol Comisiynwyr a'i fod yn aros am gael ei gymeradwyo gan y Gweinidog. Mae trafodaethau'n parhau rhwng Llywodraeth Cymru (LlC) a Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) ynglŷn â recriwtio Comisiynwyr ac mae LlC yn gyfrifol am ddatblygu cynllun/amserlen penodi i sicrhau, wrth i'r Comisiwn bontio i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC), bod Comisiynwyr ar gael i barhau â'r gwaith arolygu parhaus a chynnal yr Arolygiad Seneddol. Mae swydd-ddisgrifiadau ar gyfer rolau staff yn cael eu llunio ar hyn o bryd.

4.5. **(Mater 4) Nodwyd** y bu cyfathrebu parhaus rhwng y Comisiwn a swyddogion LlC ynglŷn â darparu llety, yn canolbwyntio'n bennaf ar TGCh a gosodiad y lle. Ar 6 Rhagfyr, rhoddodd Uwch Reolwyr gadarnhad i LlC eu bod yn fodlon ar y lluniadau wedi'u diweddaru (sydd wedi'u cynnwys yn y papur hwn). Mae hyn bellach wedi sbarduno proses fewnol LlC i gyflwyno'r lluniad i'w chadwyn gyflenwi i gadarnhau costau.

4.6. **(Mater 5) Nodwyd** bod cyfarfod ORS wedi cael ei gynnal cyn i'r cyfarfod ddechrau.

4.7. **(Mater 6) Nodwyd** yn dilyn cyfweliadau â 5 ymgeisydd a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2023, bod y Comisiwn wedi penodi 2 aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) a fydd yn dechrau ar 1 Ionawr 2024. Gwahoddwyd y ddau aelod i arsylwi cyfarfod mis Ionawr 2024.

**5. Y Rhaglen Bontio (i'w thrafod)**

5.1. **Rhoddodd** y Prif Weithredwr **wybodaeth** i'r Comisiwn am y Rhaglen Bontio.

5.2. Mae'r Rhaglen wedi bod yn canolbwyntio ar gyllid yn y dyfodol, a threfniadau Comisiynwyr a staff.

5.3. Bydd mwy o bwyslais ar y gwaith hwn yn ystod chwarter cyntaf 2024 oherwydd bydd y Pwyllgorau'n cyhoeddi eu hadroddiadau a bydd gan y Comisiwn syniad gwell o effaith eu hargymhellion ar y 2 Fil.

**6. Y Flaenraglen Waith**

**6.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad ar y Flaenraglen Waith dyddiedig 6 Rhagfyr 2023 gan y Prif Weithredwr.

**6.2.** **Rhoddodd** y Prif Weithredwr **wybodaeth** i'r Comisiwn am y datblygiadau parhaus mewn perthynas â'r bwriad i ehangu swyddogaethau'r Comisiwn.

**7. Adroddiad ar Gyllideb 2023-24**

**7.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Monitro'r Gyllideb dyddiedig 13 Rhagfyr 2023 gan y Rheolwr Cyllid.

**7.2.** Nododd y Comisiwn y newidiadau i gategorïau'r gyllideb yn dilyn trosglwyddiadau i fynd i'r afael â gorwariant amcangyfrifedig.

**7.3.** **Nodwyd** y tanwariant cyffredinol hyd at ddiwedd mis Tachwedd 2023 ac adroddwyd y disgwylir i'r gwariant ar gyfer gweddill y flwyddyn aros o fewn cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2023-24.

**8. Rheoli Risg – Cofrestr Risg**

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Rheoli Risg dyddiedig 13 Rhagfyr 2023 gan y Rheolwr Cyllid.

**8.2.** **Nodwyd** y gallai'r Flaenraglen Waith gael ei hailddrafftio i'r Gofrestr Risg wrth symud ymlaen a'i hychwanegu at yr agenda i'w hystyried yn holl gyfarfodydd y Comisiwn yn y dyfodol.

**8.3.** **Gweithredu:** Ailddrafftio'r Flaenraglen Waith.

**9. Adroddiad Cynnydd Arolygon**

**9.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Cynnydd Arolygon dyddiedig 5 Rhagfyr 2023 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

**9.2.** **Nodwyd** bod 5 arolwg cymunedol yn cael eu cynnal ar hyn o bryd, sydd i gyd ar gamau gwahanol.

**9.3.** **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad yn ogystal ag unrhyw newidiadau i'r amserlen ac unrhyw wersi a ddysgwyd ar gyfer y cofnod gwersi a ddysgwyd.

**10. Papurau Opsiynau Bro Morgannwg**

**10.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Bapurau Opsiynau Terfynol Bro Morgannwg dyddiedig 5 Rhagfyr 2023.

**10.2.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol y Barri. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 2 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**10.3.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Penarth a Sili a Larnog. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 2 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**10.4.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llanilltud Fawr a Llan-faes. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**10.5.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol y Bont-faen gyda Llanfleiddan, Pen-llin a Llanfair. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 4 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**10.6.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llan-faes a Llandŵ. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 3 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**10.7.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Dinas Powys, Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd a Llandochau. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**10.8.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Ewenni a Saint-y-brid. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**10.9.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llancarfan a’r Rhws. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 2 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**10.10.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Pendeulwyn a Llanddunwyd. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**10.11.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llanbedr-y-fro a Sain Siorys. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**10.12.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Sain Nicolas a Thresimwn a Gwenfô. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 3 o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**10.13.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Sain Dunwyd a'r Wig. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**10.14.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Tregolwyn a Llan-gan. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**10.15.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Tregolwyn a Llan-gan. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**10.16. Nodwyd** bod y Comisiynwyr wedi diolch i'r Rheolwr Arolygon am ei waith ar Arolwg Cymunedol Bro Morgannwg.

**11. Calendr Digwyddiadau**

**11.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Calendr Digwyddiadau.

**12. Unrhyw Fater Arall Perthnasol**

**12.1.** Ni nodwyd unrhyw fater arall perthnasol.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** 31 Ionawr 2024